# Hybu'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant bach

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion ar gyfer hybu gofal a datblygiad holistaidd babanod a phlant bach. Mae'n ymwneud â chwrdd â'u hanghenion corfforol, maethol a hylendid ar yr un pryd â sicrhau amgylchedd diogel a dymunol sy'n cefnogi eu llesiant a'u datblygiad emosiynol. Mae hefyd yn cynnwys pwysigrwydd adnabod ac ymateb i salwch, diogelu plant rhag niwed, a gweithio mewn partneriaeth ag eraill.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cael caniatâd a chael gafael ar wybodaeth am ddewisiadau ac anghenion babanod neu blant bach ac eraill, a rhannu'r wybodaeth honno
2. arsylwi ar ymgysylltiad babanod neu blant bach â phobl, gwrthrychau ac amgylcheddau i nodi a chefnogi eu dewisiadau, eu diddordebau a'u hanghenion
3. ymateb i ddulliau cyfathrebu llafar a di-lafar babanod neu blant bach i ddeall eu dewisiadau a'u hanghenion
4. cefnogi eraill i nodi ac ymateb i ddulliau cyfathrebu llafar a di-lafar babanod neu blant bach
5. darparu profiadau ac amgylcheddau amlsynhwyraidd sy'n helpu babanod neu blant bach i archwilio, arbrofi a mynegi eu hunain
6. paratoi, storio a darparu bwyd i fabanod neu blant bach yn unol â pholisi'r gweithle a gofynion yr unigolyn
7. sicrhau y llwyddir i gwrdd â dewisiadau ac anghenion unigol babanod a phlant bach adeg bwydo a diddyfnu
8. hybu cyfranogiad mewn arferion bwydo, diddyfnu a hunanofal, gan sicrhau bod cyflymder y rhain yn addas i fabanod neu blant bach a'u bod yn addas yn ddatblygiadol
9. rhoi gofal emosiynol a chorfforol ymatebol a pharchus mewn ffyrdd sy'n sicrhau cysur ac urddas
10. cefnogi datblygiad emosiynol a chorfforol babanod neu blant bach drwy eu hannog i symud, archwilio, a bod yn ymwybodol o'u cyrff
11. adnabod ac ymateb i arwyddion corfforol babanod neu blant bach, gan sicrhau bod ganddynt ryddid i symud a gwneud dewisiadau
12. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i sicrhau amgylcheddau diogel a dymunol
13. rheoli risgiau a chefnogi babanod neu blant bach i gymryd risgiau cadarnhaol
14. sefydlu arferion sy'n creu ymdeimlad o ddiogelwch ac yn cefnogi datblygiad perthnasoedd
15. ymateb i drallod emosiynol, gan sicrhau bod babanod neu blant bach yn teimlo eu bod yn cael eu gweld, eu clywed a'u cysuro mewn ffyrdd sy'n parchu eu dulliau ymdopi unigol
16. annog babanod neu blant bach i fynegi eu hemosiynau
17. defnyddio anogaeth a rhyngweithiadau cadarnhaol i gefnogi hunan-barch a hyder mewn babanod neu blant bach

18. gosod ffiniau clir, parchus a chyson sy’n hybu llesiant ar yr un pryd â chaniatâu hunanfynegiant
19. gweithio mewn partneriaeth â babanod neu blant bach ac eraill i rannu arsylwadau a chefnogi datblygiad a hawliau ym mhob rhan o’u bywydau
20. monitro twf a datblygiad babanod neu blant bach ac adnabod amrywiadau yn eu cynnydd
21. adnabod, ymateb ac adrodd ynghylch arwyddion o salwch, trallod neu newidiadau mewn ymddygiad
22. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer gofalu am fabanod neu blant bach
23. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau wrth hybu r gwaith o ofalu am fabanod neu blant bach

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. ffactorau sy'n gallu dylanwadu ar ddatblygiad plant, gan gynnwys niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol
2. sut gall newidiadau effeithio ar fabanod a phlant bach, a ffyrdd o'u cefnogi
3. hawliau babanod a phlant bach i fynegi eu dewisiadau a chymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt
4. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol mewn babanod a phlant bach
5. pwysigrwydd amgylcheddau sy'n cynnig cyfoeth I'r synhwyrau a chyfleoedd i symud yn rhydd, archwilio, a hunanfynegi
6. sut y gall ffactorau amgylcheddol effeithio ar allu babanod a phlant bach i symud yn rhydd a datblygu cydsymudiad corfforol
7. pwysigrwydd chwarae, rhyngweithio ac ysgogi o ran hybu dysgu a datblygu
8. sut mae babanod a phlant bach yn datblygu sgiliau symudedd a sut i gefnogi ymdrechion i symud ac archwilio yn ddiogel
9. sut mae dehongli a chefnogi dulliau cyfathrebu babanod a phlant bach, gan gynnwys ffurfiau llafar, di-lafar a llawn mynegiant o gymryd rhan
10. dylanwad diwylliant, cefndir, ysbrydolrwydd ac amgylchedd y cartref ar ddatblygiad a rhyngweithiadau babanod a phlant bach
11. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth ofalu am fabanod a phlant bach
12. sut mae arsylwi ac asesu datblygiad babanod a phlant bach
13. strategaethau ar gyfer sicrhau bod babanod a phlant bach yn cael cyfleoedd ystyrlon i fynegi eu barn, cymryd rhan mewn penderfyniadau, a dylanwadu ar eu gofal
14. eich rôl o ran diddyfnu a gosod gorchwylion hunan-fwydo babanod a phlant bach
15. rôl hydradu a maeth cytbwys o ran twf, datblygiad ac iechyd babanod a phlant bach yn y tymor hir
16. arwyddion diffyg maeth a diffyg hylif mewn babanod a phlant bach
17. arferion hylendid diogel, gan gynnwys atal a rheoli heintiau, diogelwch bwyd, a chynnal amgylcheddau glân
18. sut mae adnabod ac ymateb i salwch cyffredin yn ystod plentyndod
19. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i hybu'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant bach

20. pwysigrwydd diogelu ac adnabod arwyddion o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod a chymryd camau addas
21. y cofnodion a'r adroddiadau sydd eu hangen ar gyfer hybu'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant bach
22. theorïau sy'n berthnasol i'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant bach
23. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a'r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant bach
24. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant bach
25. sut mae gweithio mewn partneriaeth ag eraill i hybu'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant bach
26. sut y gall eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod effeithio wrth hybu'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant bach, a sut i fynd i'r afael â hyn
27. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant bach

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

HSCCLD349

Hybu'r gwaith o ofalu am fabanod a phlant bach

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD349 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Gofalu am fabanod a phlant bach, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |